Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Adolygiad Hanner Blwyddyn

Awst 2021

CYNGOR IECHYD CYMUNED
COMMUNITY HEALTH COUNCIL

www.communityhealthcouncils.org.uk

Fformatau hygyrch

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa.

Cynnwys Tudalen

Ynglŷn â'r CICau 3

Ein nod cydraddoldeb 4

Ein hamcanion cydraddoldeb 4

Yr hyn rydym wedi ei wneud 5

Yr hyn rydym wedi ei ddysgu hyd yma 7

Diolch 12

Manylion cyswllt 13

Templed Arolwg o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth 15

Ynglŷn â'r Cynghorau Iechyd Cymuned (CICau)

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar yr adolygiad hanner blwyddyn gan Gyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan ac mae'n myfyrio ar y wybodaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth rydym wedi'i chasglu a dysgu ohoni yn ystod hanner cyntaf eleni.

Lluniodd Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned (y Bwrdd) gynllun cydraddoldeb 2021-2022, sef “Gwneud i bob llais gyfrif”, ar ran y Bwrdd a'r saith Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) yng Nghymru.

Cyrff annibynnol yw CICau sy'n adlewyrchu barn ac yn cynrychioli buddiannau pobl sy'n byw yng Nghymru mewn perthynas â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae CICau yn annog pobl i leisio eu barn am y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau'r GIG, ac yn eu cefnogi i wneud hynny.

Mae saith CIC yng Nghymru. Mae pob un yn cynnwys gwirfoddolwyr lleol sy'n byw yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, wedi'u cefnogi gan dîm bach o staff cyflogedig. Mae pob CIC:

- Yn cynnal ymweliadau rheolaidd â gwasanaethau iechyd i glywed gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth (a'r bobl sy'n darparu gofal) i ddylanwadu ar y newidiadau a all wneud gwahaniaeth mawr.
- Yn estyn allan yn ehangach at bobl mewn cymunedau lleol i roi gwybodaeth ac i gasglu eu barn a'u profiadau am wasanaethau'r GIG. Mae CICau yn defnyddio'r hyn y maent yn ei glywed i weld sut mae gwasanaethau'n perfformio yn gyffredinol ac i wneud yn siŵr bod y GIG yn cymryd camau i wneud pethau'n well lle mae angen hyn.
- Yn ymgysylltu â rheolwyr gwasanaethau iechyd pan fyddant yn ystyried gwneud newidiadau i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu er mwyn i bobl a chymunedau gael dweud eu dweud o'r dechrau.

- Yn darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion sydd am ddim, yn annibynnol ac yn gyfrinachol er mwyn rhoi cymorth i bobl fynegi eu pryderon am ofal a thriniaeth y GIG.

Ein nod cydraddoldeb

Mae'n rhaid i amrywiaeth a chynhwysiant fod wrth wraidd popeth a wnawn ac mae'n rhaid i'n gweithgareddau sicrhau bod gan bawb lais cyfartal yn eu GIG.

Ein hamcanion cydraddoldeb

Mae Bwrdd y CICau a CICau ledled Cymru yn cydweithio â'i gilydd fel un mudiad. Rydym am ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth a wnawn. Rydym am helpu i sicrhau y caiff hawliau dynol pawb eu diogelu drwy ein gweithgareddau. Mae hyn yn cynnwys pan fyddwn yn penderfynu beth i'w wneud, pryd i'w wneud a sut i'w wneud.

- Rydym yn ymrwymedig i oresgyn anghydraddoldeb wrth ein gwaith.

- Mae ein dull o ymdrin â chydraddoldeb wedi'i ymgorffori yn ein cynlluniau a'n ffyrdd o weithio.

- Rydym wedi gosod safonau ar gyfer CICau yng Nghymru, ac mae hyn yn cynnwys safonau cydraddoldeb.

O fewn y fframwaith cyson hwn, mae pob un o'r saith CIC yn gyfrifol am glywed gan bobl yn ei gymuned ac ymateb i'w hanghenion penodol.

Mae'n bosibl y bydd ffocws a gweithgareddau cydraddoldeb CICau unigol mewn unrhyw flwyddyn yn wahanol – ond, wrth i bob un

ohonom ymdopi â COVID-19, mae llawer o'r pethau y mae CICau yn ymateb iddynt yn effeithio ar bobl ym mhob cwr o Gymru.

Bydd ein gweithgareddau yn lleol ac yn genedlaethol yn ymateb i wahaniaethau o ran profiad pobl o ofal iechyd yng Nghymru.

Gallwch ddysgu mwy am weithgareddau cydraddoldeb CIC Aneurin Bevan a'n ffocws yng Nghynllun Blynyddol 2021-2022 sydd ar gael ar ein gwefan neu ar gais.

Yr hyn rydym wedi ei wneud

Fel rhan o'n Cynllun Blynyddol, rydym wedi ymgysylltu'n lleol â phreswylwyr Gwent er mwyn clywed am eu profiadau o'r GIG. Mae ein dulliau ymgysylltu arferol yn gymysgedd o sgyrsiau wyneb yn wyneb, arolygon ar-lein, ymweliadau â lleoliadau'r GIG ac adolygu themâu neu dueddiadau drwy ein Gwasanaeth Eiriolaeth ar gyfer Cwynion.

Mae pob un o'r dulliau ymgysylltu hyn yn cynnwys gofyn i unigolion gwblhau holiadur cydraddoldeb ac amrywiaeth. Caiff yr holiadur hwn ei gwblhau'n wirfoddol ac yn ddienw, ac mae copi o'n holiadur cydraddoldeb ac amrywiaeth i'w weld yn Atodiad 1.

Eleni, rydym wedi parhau i addasu ein dulliau ymgysylltu yn wyneb tarfu digynsail yn sgil pandemig y coronafeirws. O ganlyniad i'r tarfu hwn, bu'n rhaid parhau i atal ein cysylltiad wyneb yn wyneb â chymunedau ar ddechrau'r flwyddyn, ond gwnaethom allu ailddechrau yn ddiweddar gan ddilyn mesurau rheoli heintiau ac asesu risg llym. Mae ein harolygon ar-lein, dros y ffôn ac ar bapur wedi parhau i gynyddu.

Gwnaethom estyn allan i sefydliadau eraill hefyd er mwyn helpu i hwyluso'r broses o ddosbarthu arolygon papur i'r rhai na allant gwblhau holiaduron ar-lein neu dros y ffôn.

Roedd pynciau ein harolygon a'n gweithgareddau ymgysylltu yn cynnwys:

Arolygon	**Nifer** y bobl a ymatebodd i arolwg neu a ymgysylltodd â ni (rhwng 01.04.2021 a 17.08.2021)	**Nifer** y bobl a gwblhaodd y cwestiynau am gydraddoldeb ac amrywiaeth
Iechyd Meddwl Oedolion – Adolygiad o Gleifion Mewnol	39	2
Yn galw ar siaradwyr Cymraeg	13	13
Arolwg o bobl fyddar a phobl trwm eu clyw	24	22
Arolwg o brofiad cleifion gyda'r Gwasanaeth Diabetes	13	13
Mynediad i Wasanaethau Meddygon Teulu	8	6
Gofal Iechyd LGBTQ+	1	1
Gofal y GIG yn ystod pandemig y Coronafeirws	292	227
Wardiau Rowan ac Oak – Ysbyty'r Sir	37	37
Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog	0	0
Apwyntiadau gofal iechyd rhithwir	0	0

Eich profiad o'r GIG	0	0
Adborth ar eiriolaeth, cydraddoldeb ac amrywiaeth*	52**	30
Adborth blynyddol aelodau gwirfoddol y CIC ar gydraddoldeb ac amrywiaeth	38	5***

*Casglwyd y data am eiriolaeth rhwng 1 Ionawr 2021 ac Awst 2021

** Nifer yr achosion lle y dychwelwyd ffurflen awdurdodi

*** Ffurflenni yn parhau i gael eu dychwelyd yn ystod mis Awst 2021, disgwylir rhagor o ffurflenni.

Yr hyn rydym wedi ei ddysgu hyd yma

Ers 1 Ebrill 2021, rydym wedi clywed gan 471 o aelodau o'r cyhoedd yn ein hardal am eu profiadau o ofal iechyd. O blith y rhain, atebodd 351 o bobl ein holiadur cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Cyfeirir at ganlyniadau aelodau gwirfoddol ein CIC yn ddiweddarach yn y datganiad hwn.

Ymatebion i Arolygon

O blith ein harolygon cyhoeddus a gwblhawyd (471), mae'r 351 o ymatebion i'r cwestiynau am gydraddoldeb ac amrywiaeth yn golygu

bod gennym gyfradd ymateb o 74% i geisiadau am y wybodaeth hon. Mae hyn yn well na'r gyfradd ymateb o 36% a nodwyd yn ein hadolygiad hanner blwyddyn diwethaf ar gyfer 2020-2021.

Wrth ddadansoddi'r data, gwnaethom nodi a dysgu'r canlynol:

- Ymatebodd mwy o bobl sy'n ystyried eu hunain yn fenywod i'n cais am wybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth na phobl sy'n ystyried eu hunain yn ddynion. Mae hyn yn debyg i ganfyddiadau blaenorol.

- Cawsom ymatebion gan bobl rhwng 17 ac 85+ oed, gyda'r mwyafrif o'r bobl dros 40 oed. Mae'n galonogol gweld bod ein gweithgareddau ymgysylltu yn cyrraedd pobl o bob oed ond rydym yn cydnabod bod angen i ni glywed mwy gan bobl rhwng 16 a 30 oed. Byddwn yn parhau i adolygu hyn ac yn ystyried ffyrdd pellach o gynnwys mwy o oedrannau yn well.

- Nododd mwy o bobl ethnigrwydd Gwyn – Cymreig/Saesneg/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig. Clywsom gan lai o bobl o'r gymuned Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, gyda dim ond saith person yn dweud eu bod yn perthyn i gefndir Du, neu Ddu Prydeinig – Caribïaidd, Asiaidd, neu Asiaidd Prydeinig – Bangladeshaidd neu Wyn a Du Caribïaidd. Felly, ni fu modd i ni benderfynu a oedd ethnigrwydd pobl yn effeithio ar brofiadau neu wasanaethau gofal iechyd. Felly, rydym yn parhau i ymrwymo i gysylltu a rhwydweithio â mwy o bobl yn y gymuned er mwyn annog mwy o adborth gan bobl. Bydd hyn yn rhan o'n cynllun gweithredol parhaus a byddwn yn parhau i ymdrechu i wneud cysylltiadau yr ymddiriedir ynddynt. Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi gwneud cysylltiad cadarnhaol â'r grŵp cymunedol Eyst a byddwn yn ceisio cryfhau ein cydberthynas â'r grŵp hwn ac eraill er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o'n cyfleoedd ymgysylltu.

- Gofynnodd pobl sy'n siarad Cymraeg am fwy o wasanaethau Cymraeg yn y GIG. Dywedodd rhai pobl y byddent yn hoffi gweld *"Mwy o staff yn siarad Cymraeg neu o leiaf yn dysgu Cymraeg ac yn dangos ymdrech ac ymrwymiad i fodloni hawliau siaradwyr Cymraeg i gael gwasanaethau iechyd lleol"* ac roedd person arall yn teimlo y dylid sicrhau*"nad yw'r Gymraeg yn anghyfleuster – y gallaf ddisgrifio fy symptomau i ymarferydd meddygol yn Gymraeg heb orfod ceisio meddwl am y geiriau yn Saesneg."*

  Fel rhan o'n dulliau adrodd parhaus i'r GIG, byddwn yn parhau i dynnu sylw at yr angen hwn. Mae hygyrchedd gwasanaethau Cymraeg yn un o nodweddion parhaus ein harolygon ar gyfer pob gweithgaredd ymgysylltu ac rydym yn ymrwymedig i godi'r angen hwn o ran iaith pan gaiff ei nodi.

- Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, clywsom gan un person drwy ein harolwg o Ofal Iechyd LHDTC+. Yr adborth cyffredinol a gafwyd gan y person hwn oedd *"Yn gyffredinol, mae'n [y GIG] dda iawn gyda fy rhywioldeb. Nid yw cystal wrth sôn am rywedd. Camenwi yn bennaf".*

  Rydym yn cydnabod o'r adborth cyfyngedig a roddwyd fod angen gwneud rhagor o waith i ddeall yr effeithiau y mae pobl yn eu hwynebu, boed hynny'n angen am fwy o gymorth gofal iechyd neu'n brofiadau cadarnhaol/negyddol. Felly, byddwn yn ymgysylltu'n ehangach er mwyn deall anghenion pobl yn well ac annog mwy o adborth gan bobl. Rydym yn ymrwymedig i ddiwallu'r angen hwn, a byddwn yn datblygu gweithgareddau fel rhan o'n cynllun gweithredol.

- Hyd yn hyn eleni, nid oes unrhyw un wedi ymateb i'n harolwg gofal iechyd ar gyfer cyn-filwyr Arolwg parhaus yw'r gweithgarwch ymgysylltu hwn, sy'n casglu adborth yn barhaus; byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r arolwg hwn er mwyn annog mwy o adborth.

- Dywedodd 112 o bobl wrthym eu bod yn byw gydag anabledd neu gyflyrau corfforol neu iechyd meddwl sy'n para neu y mae disgwyl iddynt bara 12 mis neu fwy. Ymatebodd 21 o'r unigolion hynny i'n harolwg o bobl fyddar a phobl trwm eu clyw a'r digwyddiadau ymgysylltu cysylltiedig. Yn y rhan fwyaf o achosion, dywedodd pobl wrthym y byddai gallu cael gafael ar ddehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain yn gyson yn eu helpu i gael gwasanaethau iechyd yn haws, a bod angen i systemau trefnu apwyntiadau ar-lein gynnwys opsiwn i ofyn am ddehonglwr drwy'r ffurflen electronig.

  Rydym wedi gweld bod pobl yn dueddol o ymateb yn well i'n gweithgareddau ymgysylltu os ydynt yn byw gyda chyflyrau hirdymor. Byddwn yn parhau i gasglu'r adborth hwn a hysbysu'r GIG am brofiadau fel rhan o'n prosesau adrodd parhaus.

- Yn gyffredinol, roedd yn ymddangos bod mwy o ddefnydd o'r holiadur cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gwahanol arolygon ers ein hadroddiad diwethaf.

Aelodau gwirfoddol y CIC

Mae aelodaeth y Cyngor Iechyd Cymuned yn cynnwys unigolion a benodwyd sydd â diddordeb brwd yng ngwasanaeth y GIG ac awydd i annog gwelliannau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o safbwynt annibynnol.

Ar hyn o bryd, mae aelodaeth CIC Aneurin Bevan yn cynnwys **28** o aelodau llawn, a benodwyd naill ai drwy broses penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru, a gyfeiriwyd drwy'r 3ydd sector neu a benodwyd gan y pum Awdurdod Lleol yng Ngwent.

Mae ein haelodau i gyd yn bobl leol, sy'n rhoi o'u hamser am ddim. Mae gennym hefyd **10** aelod cyfetholedig yr ydym yn eu recriwtio'n uniongyrchol o gymunedau lleol.

Mae'r adolygiad o gydraddoldeb ac amrywiaeth ein haelodau yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Caiff ein myfyrdod ar ddemograffeg ein haelodau ei ddiweddaru'n fuan ac adroddir ar hyn yn llawn yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2021-2022.

O ganlyniad i'r hyn a ddysgwyd gennym hyd yma, rydym yn parhau i ymrwymo i wneud y canlynol:

- Clywed gan fwy o ddynion am eu profiadau o ofal y GIG.
- Cyrraedd y gymuned Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn well er mwyn sicrhau bod adborth gan y boblogaeth yn seiliedig ar amrywiaeth o brofiadau gan bobl o lawer o gefndiroedd.
- Ceisio rhagor o gyfleoedd i sicrhau bod ein cyfleoedd ymgysylltu yn cyrraedd pobl o bob oed.
- Gwneud rhagor o waith gyda'r gymuned LGBTQ+ er mwyn meithrin dealltwriaeth well o brofiadau gofal iechyd a'r effaith ar unigolion.
- Parhau i helpu pobl i gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd Cymraeg.
- Parhau i geisio barn a phrofiadau pobl sy'n byw gyda chyflyrau neu salwch hirdymor.

Diolch

Diolch i bawb a roddodd o'u hamser i rannu eu profiadau a'u barn am eu gwasanaethau gofal iechyd â ni, yn ogystal â rhannu eu syniadau.

Rydym yn gobeithio y bydd yr adborth y mae pobl wedi rhoi o'u hamser i'w rannu yn dylanwadu ar wasanaethau gofal iechyd i gydnabod a gwerthfawrogi'r hyn y maent yn ei wneud yn dda – a chymryd camau cyn gynted â phosibl i wella pethau lle bo angen.

Adborth

Hoffem glywed eich barn am y cyhoeddiad hwn ac unrhyw awgrymiadau o ran sut y gallem fod wedi ei wella, fel y gallwn ddefnyddio'r adborth hwn i wella ein gwaith yn y dyfodol.

Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi cyn ymateb i'ch gohebiaeth.

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg.

Manylion cyswllt

Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan
Tŷ Rhaglan
William Brown Close
Parc Busnes Llantarnam
Cwmbrân
NP44 3AB

01633 838516

Enquiries.AneurinBevanCHC@waleschc.org.uk

www.communityhealthcouncils.org.uk

@Bevanchc

CIC Aneurin Bevan CHC

Cyngor Iechyd Cymuned

Templed Arolwg o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth

Rhyw – Pan gawsoch eich geni, cawsoch eich disgrifio fel:				
Gwryw	Benyw	Rhyngryw	Byddai'n well gennyf beidio â dweud	Heb ateb

Rhywedd – Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio orau?			
Gwryw	Benyw	Rhywbeth arall	Heb ateb

A ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil?				
Ydw	Nac ydw	Gweddw	Byddai'n well gennyf beidio â dweud	Heb ateb

Oedran				
16-24	25-34	35-44	45-54	55-64
65-74	75-84	85+	Byddai'n well gennyf beidio â dweud	Heb ateb

Ethnigrwydd			
Cymreig	Prydeinig	Seisnig	Gwyddelig
Hil gymysg	Gwyddelig Gogledd Iwerddon	Albanaidd	Gwyn Americanaidd
			Heb ateb

Crefydd neu gred					
Cristion	Bedyddiwr	Bwdhydd	Catholig	Eglwys Loegr	Agnostig
Dyneiddiwr	Iddew	Anffyddiwr	Mwslim	Byddai'n well gennyf beidio â dweud	Pagan
Arall	Dim	Ysbrydol	Wica		

Beichiogrwydd neu famolaeth			
Nac ydw	Ydw	Heb ateb	

Iechyd yn gyffredinol?						
Da iawn	Da	Gweddol	Gwael	Gwael iawn	Byddai'n well gennyf beidio â dweud	

A oes gennych unrhyw salwch neu gyflwr corfforol neu iechyd meddwl sy'n para neu y mae disgwyl iddo bara 12 mis neu fwy?			
Ydw	Nac ydw	Byddai'n well gennyf beidio â dweud	

A yw eich cyflwr neu salwch / a yw unrhyw gyflwr neu salwch sydd gennych yn effeithio ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau bob dydd?			
Ydy, rhywfaint	Ydy, i raddau helaeth	Ddim o gwbl	Heb ateb

A ydych yn gofalu am aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog, neu'n rhoi unrhyw gymorth iddo, o ganlyniad i anabledd corfforol

hirdymor, anhawster dysgu, salwch meddwl neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint?			
Ydw	Nac ydw	Byddai'n well gennyf beidio â dweud	Heb ateb

Beth fyddai eich dewis iaith ar gyfer ymgysylltu â'r CICau yng Nghymru?				
Saesneg	Iaith Arwyddion Prydain Saesneg	Cymraeg/Saesneg	Cymraeg	Heb ateb
Arabeg				